


# Cronfa Profi'r Celfyddydau

*Dysgu creadigol drwy'r Celfyddydau*

Chwefror 2019

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Ariennir yn Rhannol gan
**Lywodraeth Cymru**
Part Funded by
**Welsh Government**

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, hawdd ei deall, Braille, ar sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

## Beth am gynnau tân?

Gall profi'r celfyddydau eich ysbrydoli, eich herio, eich tynnu i mewn, eich difyrru yn ogystal â chwarae rhan bwysig ym mhrofiadau dysgu pobl ifainc ledled Cymru.

Credwn y dylai fod gan ein plant a'n pobl ifainc y cyfle i gael eu hysbrydoli a'u cyffroi gan y celfyddydau gorau yng Nghymru. Felly, yn rhan o *Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* a gydariennir gan Lywodraeth Cymru/Cyngor Celfyddydau Cymru, nod Cronfa Profi'r Celfyddydau yw darparu i blant a phobl ifainc gyfleoedd i ymgysylltu a'r celfyddydau a diwylliant yn rhan arferol o'u profiad dysgu ehangach.

Gall ysgolion ymgeisio am hyd at £1,000 tuag at ymweld â theatrau, orielau, amgueddfeydd a digwyddiadau a chanolfannau celfyddydol, treftadaethol a diwylliannol eraill. Gall ysgolion a sefydliadau celfyddydol ymgeisio am £5,000-£15,000 i ddatblygu prosiectau ymgyfranogol newydd sy'n gyffrous ac arloesol. Rydym ni am gael ceisiadau yn enwedig oddi wrth ysgolion sydd heb gael grant dysgu creadigol eto.

### Menter â'i gwreiddiau mewn polisi

Mae Cronfa Profi'r Celfyddydau yn un o'r ymrwymedigaethau a wnaed yn ***Nysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau***. Lansiwyd y gronfa ym Mawrth 2016 i ddarparu maes mawr o'r cynllun gweithredu hwn, **Cynnig y Celfyddydau ac Addysg dros Gymru gyfan**.

Bydd y canllawiau hyn yn fodd ichi wybod a yw'r **Gronfa'n addas** i chi. Esboniant hefyd a allwn ariannu'r math o gynnig sydd gennych mewn golwg. Yn olaf rhoddwn wybod ichi sut i wneud cais.

## Annog ysgolion i fynd un cam ymhellach

Nod y Gronfa yw annog ysgolion i ddarparu i blant a phobl ifainc gyfleoedd i fynd gam ymhellach wrth archwilio profiadau creadigol, diwylliannol a chelfyddydol. Yn aml noda celfgarwyr yn eu hoed ddigwyddiad penodol a sbardunodd eu brwdfrydedd yn yr ysgol.
Dau faes ariannu a gynigir. Y cyntaf yw cynllun syml 'Ewch i Weld' a gynnig arian am ymweliadau a digwyddiadau celfyddydol o safon. Yr ail yw Cydweithio Creadigol sydd ychydig yn fwy o waith ond sy'n cynnig rhagor o arian i'ch galluogi i ymgymryd â chynigion a phartneriaethau mwy uchelgeisiol. Dau ddewis sydd i Gydweithio Creadigol – Cael Blas a Phrosiectau.

### Ewch i Weld: Gweithgaredd Celfyddyd Ansawdd Uchel

Gall ysgolion ymgeisio am grantiau bychain, untro hyd at £1,000 i ariannu ymweliadau a digwyddiadau celfyddydol o safon mewn canolfannau ledled Cymru. Gallent gynnwys ymweliadau a pherfformiadau ac arddangosfeydd neu ymweliadau er mwyn gweld proffesiynolion celfyddydol wrthi'n datblygu a chreu eu gwaith.

Mae Ewch i Weld yn mynd yn fwyfwy poblogaidd ac mae llawer o ysgolion a disgyblion eisoes yn cael budd o brofiadau celfyddydol a diwylliannol o safon y tu allan i'r ysgol a'r ystafell ddosbarth. Darllenwch am brofiadau Ewch i Weld yr ysgolion a'r disgyblion ar ein gwefan **yma**.

### Cydweithio Creadigol

Canolbwyntia'r maes hwn ar weithgareddau celfyddydol, diwylliannol a chreadigol sy'n

wahanol i'r arfer. Gall ysgolion a/neu sefydliadau celfyddydol ymgeisio am £5,000-£15,000 i ddatblygu prosiectau mwy uchelgeisiol a chynaliadwy.

Dyma'ch cyfle i roi eich dychymyg a'ch creadigrwydd entrepreneuraidd ar waith. Mae ystod a math y prosiect y gellid ei ariannu'n agored lled y pen: gallai fod yn ddigwyddiad mawr 'profi'r celfyddydau' a ddigwydd mewn lleoliadau dros gyfnod o amser; gallai fod yn brosiect sy'n agored i nifer o ysgolion; gallai fod gennych ddiddordeb mewn preswylfeydd celfyddydol/diwylliannol mewn ysgolion yn y tymor hwy; efallai yr hoffech arbrofi gyda phrosiect sy'n ymwneud ag ymarferwyr creadigol sy'n gweithio mewn stiwdios amlgyfrwng, preswylfeydd cerddorol, prosiectau adrodd straeon digidol neu'r celfyddydau herwryfela. Dyma'ch cyfle i synnu eich hun (a ni)!

Disgwyliwn i geisiadau fod yn **arloesol**, arddangos **ychwanegolrwydd** a bod yn **gydweithiad** sylweddol rhwng sefydliadau yn y sector celfyddydol neu greadigol, athrawon a disgyblion. Disgwyliwn hefyd i geisiadau arddangos yn glir i ysgolion a sefydliadau celfyddydol/creadigol gydweithio ar ddatblygu'r syniad ar gyfer y prosiect. Mae gennym ddiddordeb penodol mewn cynigion a all arddangos elfen gref o ddewis a llais y disgybl.

Mae dau bosibiliad ichi eu hystyried:

### Cydweithio Creadigol: Cael Blas (ceisiadau am £5,000-£7,500)

Dylai Cael Blas ganolbwyntio ar brosiectau llai **gydag elfen gref o arbrofi a/neu fentro creadigol.** Gallent gynnwys elfennau o ymchwil a datblygiad. Craidd y prosiectau hyn yw rhoi cynnig ar rywbeth a dylai'r pwyslais fod ar arloesi, adeiladu partneriaethau creadigol newydd neu weithio mewn maes hollol newydd. Mae ein diddordeb yn siwrnai'r partneriaid gyda'i gilydd i fynd i'r afael a her benodol. Mae gwerthuso Cael Blas yn hanfodol a hoffem ddeall sut y caiff yr hyn a ddysgir ei ddefnyddio er budd y dyfodol.

### Cydweithio Creadigol: Prosiectau (ceisiadau am £5,000-£15,000)

Dylai prosiectau fod yn **gynigion am waith arloesol sy'n fwy a newydd.** Mae'n bosibl ichi ddewis ymgeisio am arian i ddatblygu gwaith blaenorol gan adeiladu arno gan arddangos yn glir sut yr ewch gam ymhellach a sut y defnyddiwch fewnwelediadau'r gwaith a fu i gyflawni buddion ychwanegol i ymgyfranogwyr. Mae'n bosibl ichi ddewis ymgeisio i ddatblygu prosiect gyda phartneriaid cyfredol neu rai newydd neu gyda'r ddau.

Darllenwch ragor am rhai o'r Prosiectau Cydweithio Creadigol sydd ar waith ar hyn o bryd ar ein gwefan, yma.

Gydag Ewch i Weld, Cael Blas a Phrosiectau, y peth pwysig yw y gall y sefydliadau sy'n ymgeisio ddangos inni sut y cyfranna'r gweithgarwch arfaethedig at y dysgu a'i gyfoethogi a sut mae'n cynnig i ddisgyblion rywbeth newydd a difyr. Chwiliwn am brosiectau sy'n ceisio gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

**Am beth rydym yn fodlon talu?**

Mae ychydig o weinyddu y bydd yn rhaid ichi ei wneud. Dim ond prosiectau sy'n **newydd ac**

**yn ychwanegol at eich gweithgarwch arferol** y gallwn eu hariannu. Ni allwn ariannu dysgu craidd cyfredol, prosiectau sydd wedi dechrau'n barod neu brosiectau sy'n mynd i ddigwydd ni waeth a gânt ein harian ai peidio. Gweithgarwch newydd yw hanfod hyn oll felly mae'r egwyddor o ychwanegolrwydd o'r pwys mwyaf inni.

Ni allwn roi arian ar gyfer gwariant cyfalaf/prynu offer. Gallwn roi **hyd at 90% o'r arian** am gynigion sydd wedi'u cymeradwyo a gall arian cyfatebol fod yn gymysgedd o arian a chefnogaeth mewn nwyddau. Ni allwn ariannu gweithgareddau a amserlennwyd eisoes ac sy'n rhan o gyllidebau sydd eisoes yn bodoli. Ar gyfer Cydweithio Creadigol, disgwyliwn hefyd i unrhyw gostau gweinyddol a nodwch fod yn llai na 10% o gyfanswm costau'r prosiect. Yn olaf ni allwn ariannu mynd i leoliadau neu ddigwyddiadau celfyddydol sydd y tu allan i Gymru.

Gwyddom fod sefyllfa rhai ysgolion yn wahanol i sefyllfa rai eraill. Er enghraifft, pan fo ysgol mewn ardal ddifreintiedig iawn neu ardal dra gwledig gyda chludiant cyhoeddus gwael neu pan fo ysgol Gymraeg mewn ardal heb lawer o hygyrchedd i'r celfyddydau neu gyfleoedd diwylliannol Cymraeg, rhoddwn ystyriaeth ofalus iawn i'ch cais.

Gwyddom o'r gorau nad ni yw ffynhonnell pob syniad gwych! Felly mae'n well gennym beidio a nodi'n rhy bendant yr hyn a ariannwn a'r hyn nad ariannwn. Serch hynny, dyma rai awgrymiadau am bethau y byddem yn fodlon eu hystyried:

**Ewch i Weld: Gweithgaredd Celfyddyd Ansawdd Uchel**

- Llogi bws neu gostau cludiant cyhoeddus arall. Disgwyliwn ichi ddefnyddio'r cludiant ymarferol rhataf.
- Costau tocynnau. Disgwyliwn ichi fanteisio ar y gostyngiadau a'r cyfleoedd archebu grŵp lle bo'r rhain ar gael.
- Costau gweithdy. Rhaid bod y rhain yn cael eu cynnal gan y lleoliad yn ystod cyfnod yr ymweliad.

Mae Ewch i Weld yn agored i bob ysgol Cymru.

**Cydweithio Creadigol**

- Ffioedd proffesiynol artistiaid, ymarferwyr creadigol a sefydliadau celfyddydol.
- Costau deunyddiau.
- Llogi offer a chefnogaeth dechnegol.
- Prynu meddalwedd neu hygyrchedd i lwyfan ar-lein am fwyafswm o 12 mis, er enghraifft, prosiect seiliedig ar godio (ni allwn ariannu prynu offer na chaledwedd).

Mae rhai ysgolion yn cael budd yn barod o'r arian a roddir dan ein cynllun, Ysgolion Creadigol Arweiniol. Yn anffodus ni allwn gynnig arian pellach a fydd o fudd i'r plant a gaiff gefnogaeth yn barod gyda'u gweithgareddau dysgu creadigol drwy gyfrwng Ysgolion Creadigol Arweiniol. Nid yw'r maes hwn ar gael felly i ysgolion sy'n ymwneud a chynnal prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol. Serch hynny, mae croeso i'r ysgolion hyn ymgeisio i Gydweithio

Creadigol neu ymgyfranogi o'i weithgarwch unwaith y daeth eu prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol i ben.

**Sut i ymgeisio am ein harian**

Dim ond ysgolion a all ymgeisio am arian **Ewch i Weld**.

O ran **Cydweithio Creadigol**, gall ceisiadau ddod oddi wrth ysgol neu sefydliad celfyddydol/diwylliannol. Yn y ddau achos bydd raid inni weld tystiolaeth glir o'r bartneriaeth a'r cydweithio rhwng yr ysgolion a'r sefydliadau celfyddydol, byddwn ni'n disgwyl gweld manylion o hyn yn eich llythyrau cefnogi. Rhaid ichi hefyd fanylu ar ba swyddogaeth y chwery pob partner yn y gweithgarwch.

I'r ddau faes bydd yn rhaid ichi lenwi ffurflen gais drwy ddefnyddio ein proses ymgeisio ar-lein sydd ar ein gwefan yma.

Dyma'r math o wybodaeth y gofynnwn amdano ar y cam hwn yn y broses:

- Amlinelliad o'r gweithgarwch yr hoffech inni ei ariannu;
- Cyfanswm cost y prosiect a swm y grant a geisiwch;
- Sut y cewch arian cyfatebol o 10% o leiaf o gyfanswm costau'r prosiect;
- Gwybodaeth am y grwpiau o bobl ifainc a gaiff fudd o'ch prosiect (gan gynnwys oed y disgyblion);
- Gwybodaeth a data am y canlyniadau y disgwyliwch eu cyflawni (er enghraifft, sawl plentyn a gaiff fudd);
- Crynodeb o'r effaith a fwriedir a sut y cyfranna'r prosiect at yr effaith honno;
- Disgrifiad o'ch ysgol/ysgolion;
- Esboniad am sut y bydd eich gweithgarwch yn ychwanegol at eich gweithgareddau creadigol arferol.

Hefyd rhaid inni gael manylion cyswllt y sefydliad a'r unigolyn yno a fydd yn arwain y prosiect hwn.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau**

Nid oes dyddiad cau ar gyfer **Ewch i Weld**, gall ysgolion ymgeisio am arian ar unrhyw adeg. Yn y rhan fwyaf o achosion, clywch mewn 3 wythnos weithiol a yw eich cais yn llwyddiannus ai peidio. Dylech felly gyflwyno eich cais mewn da bryd cyn y digwyddiad yr hoffech fynd iddo - o leiaf 4 wythnos ymlaen llaw i ganiatáu i'n proses trafod grantiau ddigwydd.

Cyhoeddir dyddiadau cau i **Gydweithio Creadigol** ar ein gwefan ac yn ein bwletin, Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

**Dysgu o'r hyn sy'n digwydd**

Megis gyda phob prosiect a ariennir yn gyhoeddus, mae'n bwysig inni gynnwys elfen gyhoeddus, mae'n bwysig inni gynnwys elfen gael gwybod a ddigwyddodd y prosiectau. Serch hynny, rydym hefyd am gael prosiectau i'n dysgu am y ffyrdd gorau o gyfuno'r celfyddydau/diwylliant ag addysg i wella dysgu creadigol.

Rydym am i'r rhaglen feddu ar waddol diriaethol. Felly ar ddiwedd y prosiect, gofynnwn ichi roi inni adroddiad byr am eich gweithgarwch gan nodi a gyflawnwyd eich canlyniadau disgwyliedig. Darparwn ichi dempled at y diben hwn. Ar gyfer Ewch i Weld, hoffem ichi gynnwys adolygiadau byrion gan eich disgyblion.

**Cael gwybod rhagor**

Gwyddom fod gwneud cais yn cymryd amser ac ymdrech. Rydym yma i helpu. Os ydych yn ystyried ymgeisio i Gronfa Profi'r Celfyddydau, byddwn yn fodlon iawn ichi drafod eich cais gyda ni. E-bostiwch ni:
dysgu.creadigol@celf.cymru

**Cynghorion ymgeisio:**

- Os cawsoch chi unrhyw grant oddi wrthym ni yn y gorffennol mae dychwelyd ffurflen werthuso'r prosiect yna'n hanfodol inni gau'r grant; ni fyddwn ni'n gallu talu grantiau eraill ichi gyda hen grant sy'n agored o hyd.

- Mae'r rhaglen hon wedi'i neilltuo ar gyfer plant o oed ysgol (meithrin hyd 16 oed); ni fyddwn ni'n ariannu addysg wedi 16 oed gan gynnwys colegau addysg bellach a chweched dosbarth.

- Yn y rowndiau dyrannu grantiau, byddwn ni'n rhoi blaenoriaeth i ysgolion sydd heb gael grant dysgu creadigol eto.

- Ni fyddwn ni'n ariannu gwariant cyfalaf, er enghraifft prynu offer.

**Ewch i Weld:**

- Nodwch yr union ddyddiad y bydd y daith yn digwydd.

- Gwnewch yr agwedd gelfyddydol o safon yn ffocws eich cais.

- Rhaid i'r gweithgarwch ddigwydd mewn lleoliad celfyddydol ac nid yn yr ysgol.

- Ni fyddwn ni'n ariannu gweithgarwch rydych chi eisoes wedi'i fwcio.

**Cydweithio Creadigol:**

- Gwnewch yr agwedd gelfyddydol fynegiadol yn ffocws eich cynnig.

- Cynhwyswch lythyrau cefnogi oddi wrth y cydweithwyr allweddol.

- Os ydych chi'n cynnwys unrhyw incwm 'a enillwyd' neu 'cyfatebol' yn eich cyllideb, nodwch yng nghorff y cais sut byddwch chi'n cyflawni hyn.